**<u>Chweched cyfarfod y Grŵp Trawbleidiol ar yr Iaith Gymraeg</u>**
**<u>Cofnodion 18 Chwefror 2014 8.15y.b.</u>**

1. Cyflwyniad gan y Cadeirydd, Keith Davies AC
2. Ymddiheuriadau
3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf (4ydd Rhagfyr 2013)
   http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=7621
4. Dechrau'n Deg: Martin Swain, Dirprwy Gyfarwyddwr dros Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, Llywodraeth Cymru. Cwestiynnau o'r llawr i ddilyn
5. Y Bil Cynllunio: cyflwyniad gan Aled Davies, Pennaeth Adran Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) Cyngor Gwynedd. Cwestiynnau o'r llawr i ddilyn
6. Pwnc trafod y cyfarfod nesaf
7. Trafodaeth am greu cyswllt fideo ac am gynnal cyfarfodydd tu allan i'r Cynulliad
8. Unrhyw fusnes arall

**Yn bresennol:**

Keith Davies AC (Cadeirydd)
Mike Hedges AC
Alun Ffred Jones AC
Aled Roberts AC

Mark Major – ar ran Suzy Davies AC
Elizabeth Laird – ar ran David Melding AC

*Siaradwyr:*
Aled Davies – Cyngor Gwynedd
Martin Swain - Llywodraeth Cymru

Ceri Owen – RhAG
Colin Nosworthy – Cymdeithas yr Iaith
Dona Lewis – Mudiad Meithrin
Meinir Jones – swyddfa Comisiynydd y Gymraeg
Gwyn Williams - swyddfa Comisiynydd y Gymraeg
Manon Humphreys - swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

Dai Williams – Menter Blaenau Gwent, Torfaen, Mynwy a Chasnewydd
Emily Cole – Menter Iaith Cymru
Rebecca Williams – UCAC
Penri Williams – Mudiadau Dathlu'r Gymraeg

**Ymddiheuriadau**

Simon Thomas AC
Phil Bale
Dr Huw Thomas
Dr Hywel Glyn Lewis
Elfed Roberts – Eisteddfod Cenedlaethol Cymru
Catrin Dafydd
Sian Lewis – Menter Iaith Caerdydd
David Wyn Williams – Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

**Eitemau agenda pellach**

**Eitem 3.** Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf a gyhoeddwyd ar wefan y Cynulliad

**Eitem 4. Cafwyd cyflwyniad gan Martin Swain, Dirprwy Gyfarwyddwr dros Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, Llywodraeth Cymru ar raglen Dechrau'n Deg.**

Sefydlwyd y rhaglen anstatudol hon yn 2006 sy'n canolbwyntio ar blant 0-4 oed ac yn targedu ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'n rhaglen gyfannol, rhyng-ddisgyblaethol sy'n gweithio gyda llu o arbenigwyr. Pwysleiswyd fod y rhaglen yn gweithio gyda'r plant am gyfnod byr iawn mewn gwirionedd ac fod heriau sylweddol i'w goresgyn gan y plant a'r teuluoedd.

Ceir 4 amcan graidd, sef:

(i) Ymwelwyr Iechyd; (ii) Gofal Plant – plant 2-3 oed; (iii) Cefnogaeth Rhianta; (v) Iaith a Chwarae – cynyddu lefelau llythrennedd plant ac oedolion

Yn 2006 llwyddwyd i roi cefnogaeth i 18,000 o blant ac erbyn 2014 mae hynny wedi codi i 24,000.  Y targed yw dyblu'r rhaglen o 18,000 i 36,000 erbyn diwedd tymor presennol y Cynulliad.

Mae pob ALl yn derbyn canran o gyllid gan Dechrau'n Deg; gwneir hynny trwy edrych ar bob sir i adnabod yr ardaloedd mwyaf difreintiedig

£22 o gyllid cyfalaf wedi'i fuddsoddi yn y rhaglen gyda £3-4 miliwn ychwanegol eto i'w fuddsoddi. Mae'r rhaglen wedi buddsoddi mewn 200 ymwelydd iechyd a 1,000 o weithwyr gofal plant ychwanegol.

Pwysleiswyd bod yr iaith Gymraeg yn elfen greiddiol o'r rhaglen. Mae wedi bod yn glir o'r cychwyn cyntaf y dylai rhieni gael y dewis o ddarpariaeth os yn dymuno.

Yng Ngwynedd a Môn mae mwyafrif y ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn ardaloedd lle mae addysg Gymraeg yn tyfu maent yn parhau i sefydlu darpariaeth. e.e twf addysg Gymraeg yn y cymoedd yn cyfateb i dwf yn y galw am ddarpariaeth DD trwy gyfrwng y Gymraeg.

Nodwyd nad oedd unrhyw ddarpariaeth wedi bod ar gael yng Nghasnewydd. Mae modd cadarnhau bod darpariaeth ar gael erbyn hyn.

Pwysleisiwyd bod Dechrau'n Deg yn gweithredu yn yr ardaloedd mwyaf heriol yn gymdeithasol a'i bod yn her denu ymarferwyr i weithio o gwbl yn yr ardaloedd hynny.

Gwneir pob ymdrech i ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl y galw ond bod rhaid gwneud hynny o fewn cyd-destun darparu gwasanaeth sydd o'r safon uchaf.

Maent wedi gofyn i bob ALl greu Cynlluniau Strategol 3 blynedd, sy'n nodi lle gallent sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae modd canfod y cynlluniau hyn ar wefan Dechrau'n Deg.

Yn ddiweddar rhoddwyd cyfarwyddyd i ALl i fod yn fwy rhagweithiol wrth ymateb i hynny. Mae mwy o ymdrech bellach ar hysbysu rhieni bod y ddarpariaeth ar gael yn hytrach na aros i rieni wneud cais amdano.

**Cwestiynau / trafod**

Mudiad Meithrin yn awyddus i gydweithio trwy brynu lleoedd yn y Cylchoedd Meithrin presennol yn hytrach na sefydlu darpariaethau o'r newydd bob tro.

Mae diffygion yn parhau o safbwynt hyfforddiant staff Lefel 5 trwy gyfrwng y Gymraeg. Unwaith eto, mae'r Mudiad Meithrin yn awyddus i gydweithio er mwyn datrys hyn.

Telerau ac amodau a chyflogau yn is yn y sector ac felly'n colli gweithlu i'r ysgolion. Her arall.

Angen newid agweddau a phroffesiynoli'r sector er mwyn creu sefyllfa ble mae pobl yn awyddus neu'n anelu i weithio yn y sector.

Ydy'r neges wedi cyrraedd yr ALl eto? Cwestiwn sylfaenol. Angen parhau i wthio hyn.

Faint o gydweithio gyda Teuluoedd yn Gyntaf? Hyn yn amrywio o ardal i ardal. Y nod yw cynnig dilyniant ar ôl Dechrau'n Deg er mwyn sicrhau gofal cofleidiol.

Pa gyswllt rhwng Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a rhaglen Dechrau'n Deg? Cynlluniau tair blynedd wedi'i cytuno gyda'r ALl yn ddiweddar, os cyfyd anfodlonrwydd efo sir yna mae modd mynd yn ôl atynt. Pwysleisir bod 95-100% o'r galw yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd.

Yn fodlon iawn edrych ar achosion unigol mewn ALl lle mae problemau neu ddiffyg penodol ac yn croesawu tystiolaeth i brofi hynny.

Mae'r meddylfryd yn parhau bod rhaid gofyn am y ddarpariaeth yn lle ei fod ar gael yn hwylus a chyfleus. MS yn awyddus iawn iddo fod yn gynnig rhagweithiol i rieni.

Pwyslais pennaf y rhaglen yw'r heriau o safbwynt datblygiad y plentyn ond yn awyddus i fod yn rhagweithiol o ran dewis iaith.

**Eitem 5: Cafwyd cyflwyniad gan Aled Davies, Pennaeth Adran Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) Cyngor Gwynedd.**

Mae'n gyfnod cyffrous ym myd cynllunio gyda newidiadau mawr ar droed. Mae'r Gweinidog wedi gosod gweledigaeth glir ac uchelgeisiol, ond eto'i gyd ni cheir cyfeiriad at yr iaith yn benodol yn y weledigaeth honno.

Cyfle trwy edrych ar y Bil i roi mwy o allu i'r system, gofynion mawr o'r drefn falle nad yw wedi'i chreu i'w ddarparu. Rhaglen uchelgeisiol o newid er mwyn moderneiddio'r drefn a rhoi pwyslais ar y cleient, sef defnyddiwr y gwasanaeth.

Oes yna gyfleoedd yn cael eu colli? Oes gormod o haenau yn y Bil?

Dim sôn am yr iaith o gwbl fel ystyriaeth gynllunio ganolog. Ar hyn o bryd mae elfen o ddamcaniaethu beth fydd effaith ieithyddol gyda bwlch mawr yn y wybodaeth.

Cyd-berthynas y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Mae perygl creu system sy'n rhy drwsgl. Ceir pryderon hefyd o safbwynt capasiti/ adnoddau i gyflawni'r uchelgais

Oes lle ar gyfer cymhathu disgwyliadau ac amrywiadau lleol? Fydd y defnydd o amrywiaeth leol yn cael ei ddileu?

Paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Sefydlu categori newydd o geisiadau cynllunio. Arweinyddiaeth weithredol neu ganoli pwer?

Sefydlu system Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS) fydd yn cyfarch materion strategol ehangach na lleol e.e cyflenwad tai, trafnidiaeth, gwastraff, ayb

Gellir dadlau bod Abertawe, Caerdydd, coridor yr A5 yn disgyn o fewn y cwmpawd yma ond ydy gweddill Cymru? A yw'r ardaloedd gwledig Cymreig yn disgyn tu allan i'r CDS? A ddylai'r iaith fod yn ystyriaeth cynllunio strategol?

Beth sy'n digwydd os yw'r gymuned leol am dorri cwys gwahanol e.e yn arbennig o ran ystyriaethau ieithyddol?

Mae'r drefn gynllunio yng Nghymru yn system sydd wedi'i hetifeddu. System ar gyfer Cymru a Lloegr. Mater wedi'i hoelio i'r ymylon yw'r ystyriaethau ieithyddol i bob pwrpas felly.

Dim felly yn y Ddeddfwriaeth ac ddim yn treiddio trwodd i holl elfennau eraill y gyfundrefn: trefn cynllunio/canllawiau/cylchlythyrau.

TAN 20. Deddf 2000 yn wan a'r un bresennol fawr gwell. Mae rhai agweddau o gymorth, ond yn gyffredinol mae'n creu cryn rhwystredigaeth. Ceir cydnabyddiaeth o'r iaith, trwy'r angen i gynnal Asesiadau Effaith Iaith, ond ni cheir eglurder na chyfarwyddyd ar sut i wneud hynny.

Canlyniad hyn yw fod amrywiaeth o ddulliau asesu effeith iaith. Dylanwad cyfyngedig iawn sydd ganddo felly.

Dymuniad i weld darparu tai ar gyfer anghenion lleol i gefnogi'r iaith Gymraeg a'u cymunedau. Awch wleidyddol i roi cyfle i bobl aros yn eu hardaloedd genedigol.

Rhaid cwestiynu'r elfen am ffigyrau tai. Mae amheuaeth nad yw'r iaith yn cael ystyriaeth deg gan yr ALl. Gwybodaeth leol am ddirywiad ieithyddol yn eilradd i gyfarwyddyd Llywodraeth.

Y drefn o ddyrannu ffigyrau tai yn haearnaidd iawn. Wedi'i seilio ar drefn ffigyrau sydd o leiaf yn 2/3 mlynedd oed ac yn pennu cyfeiriad polisi am 15 mlynedd i'r dyfodol. Y drefn ddim yn cynnig hyblygrwydd i ddechrau'n is a chynyddu os oes angen.

Oes gan y drefn Gynllunio y dylanwad mae pobl yn gredu sydd ganddo? Newidiadau mewn cymdeithas hefyd yn ffactor fawr sy'n creu mwy o alw am dai e.e teuluoedd yn chwalu, byw yn hŷn. O bosib mae mewnfudo yn llai o ffactor na'r hyn dybiwn.

Arafwch y drefn i ymateb i ddatblygiadau diweddar e.e data Cyfrifiaf 2011

Agweddau diffygiol ymysg swyddogion a gweision sifil am y Gymraeg.

Mae angen bod blas Cymreig yn cael ei roi i'r ystyriaethau a dyma sy'n cael ei golli dan y drefn bresennol.

Lle nesaf? Mae newid mor sylfaenol yn y drefn yn ddigwyddiad unwaith mewn cenhedlaeth. Cyfle gwirioneddol yma. Mae'r Bil yn dechrau ar ei daith deddfwriaethol ac yn dod gerbron ACau 3 gwaith eto yn hwyrach mlaen eleni.

Mae bwlch yn bodoli rhwng y drefn ei hun a'r cyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio'r drefn yn effeithiol. Ceir teimlad bod ALl yn noeth o'r arfau angenrheidiol sydd angen arnynt ond y disgwyliadau yn parhau'n enfawr. Angen prif ffrydio o'r top i'r gwaelod er mwyn eu galluogi i wneud gwahaniaeth; rhaid bod hynny'n dechrau yn y Ddeddf ei hun, ac yna trwy'r rheoliadau a'r holl ddogfennau polisi a chanllawiau.

Mae rhinweddau i gadw'r drefn fel y mae, ond o ran agweddau ac ymrwymiad i'r iaith mae angen trefn wahanol. Cymru yn wlad wahanol gydag anghenion gwahanol.

Rhaid i'r ddogfen fod yn wrthrychol ac adnabod anghenion Cymru heddiw. Nid yw'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy gyda'r Gymraeg ar y lefel uchaf wedi'i integreiddio trwy'r holl gyfundrefn.

**Eitem 6:** Trafodwyd a chytunwyd y byddai'n fuddiol cyfuno trafodaeth bellach ar y Bil Cynllunio ynghyd ag Ymchwiliad ar y Safonau fel pynciau trafod y cyfarfod nesaf.

**Eitem 7:** Cytunwyd mewn egwyddor i greu cyswllt fideo a chynnal cyfarfodydd tu allan i'r Cynulliad. Cafwyd cytundeb hefyd mai boreau Mawrth neu Fercher sydd orau o safbwynt sicrhau presenoldeb ACau.

**Eitem 8:** UFA. Dim byd yn codi.